**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Deputy Minister for Culture, Tourism and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/P/EM/4464/18

11 Ionawr 2019

Annwyl Bethan,

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am ein croesawu i'r cyfarfodydd ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20, ac am y sylwadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a anfonwyd ar 27 Tachwedd 2018. Rydym yn nodi ein hymatebion i'r argymhellion unigol yn y ddogfen atodedig.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| **Eluned Morgan AC/AM** | **Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM** |
| Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon |
| Minister for International Relations and the Welsh Language | Deputy Minister for Culture, Tourism and Sport |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 08/11/2018 a 14/11/2018 i drafod y materion hyn.**

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am eu hamser ac am y sylwadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a anfonwyd ar 27 Tachwedd 2018. Rydym yn nodi ein hymatebion i'r argymhellion unigol isod.

**Mae'r ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad yn cael eu nodi isod:**

**Argymhelliad 1** (paragraff 11)

**Nid oedd y Pwyllgor yn eglur o'r graddau y mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso newidiadau yn y ffyrdd o weithio yn dilyn cynnwys y cyfarwyddyd ar y nodau llesiant yn y llythyrau cylch gwaith perthnasol. Hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ar y pwynt hwn.**

**Ymateb:** Derbyn.

Mae'r cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau a bennwyd yn y Llythyrau Cylch Gwaith yn cael ei fonitro drwy adolygu'r adroddiadau perfformiad chwarterol y mae'r cyrff a noddir yn eu cyflwyno i'r timau noddi yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y drafodaeth yn y cyfarfodydd Monitro Chwarterol. Bu'r egwyddorion a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog i sut mae'r cyrff hyn yn gweithio o'r cychwyn. Mae diwylliant yn ymwneud â diogelu ein gorffennol er budd cenedlaethau'r dyfodol, a hyrwyddo ac annog cyfranogiad. Mae'r trafodaethau â'r cyrff yn y cyfarfodydd hyn yn cwmpasu'r ffyrdd y mae'r cyrff yn diogelu eu heiddo a'u casgliadau, yn cydweithio â'i gilydd a chyda sefydliadau eraill, ac yn galluogi mynediad ac yn cynnwys pobl yn eu gwaith.

Mae'r union ffordd y mae'r cyrff hyn yn dangos sut y maent yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf yn amrywio. Er enghraifft, mae pob un o feysydd targed Cyngor Celfyddydau Cymru a nodir yn y Cynllun Gweithredu blynyddol bellach yn cynnwys rhestr wirio benodol a fesurir yn erbyn y saith nod llesiant. Mae datganiad llesiant yr Amgueddfeydd Cenedlaethol, *Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau,* yn darparu darlun eglur o sut y byddant yn bodloni'r amcanion llesiant drwy eu gwaith, a sut y defnyddir y pum ffordd o weithio i wneud hynny; ac mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn nodi sut y bydd yn cyfrannu o fewn ei strategaeth ar gyfer 2017-2021: *Cof y Genedl: Cof y Byd.*

**Argymhelliad 2** (paragraff 14)

**Roedd y Pwyllgor yn pryderu y dylai'r buddsoddiad cyfalaf gan Adran y Gweinidog gael ei rannu ledled Cymru. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar raniad daearyddol cyllid cyfalaf ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau.**

**Ymateb:** Derbyn.

Mae'r cyllid cyfalaf ar draws y portffolio wedi'i rannu ar sail ddaearyddol gan ganolbwyntio ar brosiectau a fydd yn dod â budd, nid yn unig yn lleol, ond yn ehangach ar gyfer pobl Cymru.

Darperir y cyllid cyfalaf ar gyfer y Celfyddydau yn gyffredinol gan Gyngor Celfyddydau Cymru fel dosbarthwr arian y loteri. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu buddsoddiad cyfalaf ar gyfer prosiectau mawr, a'r rhai mwyaf nodedig mewn blynyddoedd diweddar yw Amgueddfa Glyn Vivian yn Abertawe a'r ganolfan Pontio ym Mangor.

Darperir cyllid cyfalaf ar gyfer yr Amgueddfeydd Cenedlaethol hefyd ar gyfer prosiectau mawr. Mae'r gwaith o ailddatblygu Sain Ffagan bellach wedi'i orffen. Rydym wrthi'n trafod â'r Amgueddfeydd Cenedlaethol ynghylch y datblygiadau arfaethedig yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis, ac Amgueddfa'r Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion.

Ceir cynllun Grant Cyfalaf Trawsnewid hefyd, sy'n agored i'r holl lyfrgelloedd cyhoeddus ac amgueddfeydd ac archifau lleol achrededig. Mae cyfanswm o £1.8 miliwn y flwyddyn ar gael i gefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae'n broses gystadleuol ac mae'r gronfa'n cael gormod o danysgrifwyr pob blwyddyn. Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae'r cyllid wedi'i ddyfarnu i brosiectau mewn 14 o ardaloedd awdurdod lleol ar wahân ledled Cymru.

**Argymhelliad 3** (paragraff 19)

**Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ar i ba raddau y bydd grantiau ar gael i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, a pha gamau sydd wedi'u cymryd i roi gwybod iddynt am y polisi hwn.**

**Ymateb:** Derbyn.

Mae grantiau Cadw ar gyfer cynlluniau atgyweirio adeiladau hanesyddol yn canolbwyntio ar helpu i arbed adeiladau rhestredig sydd mewn perygl a/neu ysgogi cyfleoedd adfywio a sicrhau buddiannau i gymunedau Cymru. Un o'r ffyrdd y gellir sicrhau'r buddiannau hyn yw drwy gyfleoedd i ddatblygu sgiliau ac i gael mynediad. Mae unrhyw fuddsoddiad yn seiliedig ar ddull partneriaeth, gyda Cadw yn cyllido hyd at 50% o'r gwaith sy'n gymwys i gael grant. Rydym yn chwilio am sicrwydd ynghylch ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael drwy ein proses ymgeisio ac rydym yn annog atebion arloesol a chydweithio. Mae ein meini prawf a'n gofynion cymhwyster wedi'u nodi ar ein gwefan a byddant yn cael eu diweddaru gyda'r wybodaeth ar y cylch nesaf o gyllid yn fuan.

**Argymhelliad 4** (paragraff 24)

**Hoffai'r Pwyllgor wybod y diweddaraf am ganlyniad y gwaith ymchwil hwn. Hoffai'r Pwyllgor hefyd gael gwybodaeth ychwanegol am bwy sy'n gyfrifol am**

**y gronfa £100,000, sut caiff ei hyrwyddo, a beth yw canlyniadau disgwyliedig y gwariant, a sut y cânt eu gwerthuso.**

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu £100,000 yn 2018-19 a £100,000 yn 2019-20 i gefnogi newyddiadurwyr sy'n ceisio sefydlu eu busnesau eu hunain mewn newyddion lleol iawn. Mae hyn yn ychwanegol at y cymorth presennol ar gyfer busnesau drwy Busnes Cymru. Mae'r cyllid hwn o fewn portffolio Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, a dylid gofyn unrhyw gwestiynau pellach iddo ef.

**Argymhelliad 5** (paragraff 26)

**Mae'r Pwyllgor yn deall y cyfyngiadau presennol ar gyllid, ond mae hefyd yn pryderu nad yw'r gyllideb sefydlog arian parod yn caniatáu cynnydd digonol tuag at darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

**Ymateb:** Derbyn.

Rydym yn derbyn bod y targed o gyrraedd Miliwn o siaradwyr Cymraeg yn un heriol.

Fodd bynnag, mae'r cyllid refeniw ychwanegol gwerth £6.5 miliwn yn 2019-20 (sy'n rhan o gytundeb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru ar y Gyllideb) a'r arian cyfalaf ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (CSGAau) a'r Cynnig Gofal Plant wedi rhoi cyfle i ni osod y sylfeini gan gefnogi'r Rhaglen Waith rhwng nawr a 2021. Rydym wedi gallu canolbwyntio ar flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu darpariaeth yn y meysydd canlynol: gofal plant, ôl-16 ac yn y gweithle.

Er bod y rhan fwyaf o gyllid yn dod o dri BEL (BEL y Gymraeg, BEL y Gymraeg mewn Addysg, BEL Comisiynydd y Gymraeg), mae adnoddau ychwanegol o ffrydiau cyllido eraill hefyd yn cefnogi'r gwaith o roi'r strategaeth ar waith. Mae'r adnoddau ychwanegol hyn yn cynnwys gweithgareddau a ariennir drwy'r MEG Addysg ac yn cynnwys gwerthuso prosiectau a gynhelir gan Is-adran y Gymraeg (sy'n ymwneud ag addysg statudol), cymorth ariannol a gynigir ar gyfer y Cynllun Sabothol a phrosiectau i gefnogi darpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon cyfrwng Cymraeg. Gan fod y Gymraeg yn flaenoriaeth drawslywodraethol, rhaid i'r holl feysydd polisi ystyried sut y maent yn cefnogi amcanion *Cymraeg 2050*.

Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd yn erbyn y targedau a'n cyllidebau yn ofalus ac yn mireinio yn ôl y galw.

**Argymhelliad 6** (paragraff 32)

**(i) Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu rhagor o fanylion am ganlyniadau disgwyliedig y Cynllun Sabothol i'r Pwyllgor gan gynnwys nifer y cyfranogwyr ar y cyrsiau byr, y cwrs "Cymraeg mewn Blwyddyn" a gwerthuso gallu ieithyddol y cyfranogwyr ar ôl iddynt ddychwelyd i'w hysgolion.**

**Ymateb:** Derbyn.

Mae dau bwrpas i'r Cynllun Sabothol:

- datblygu sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr yn y sector cyfrwng Saesneg i'w galluogi i addysgu'r Gymraeg fel rhan o'r cwricwlwm.

- uwchraddio sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr o ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg i'w galluogi i addysgu mwy o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, neu wella eu sgiliau iaith er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd Cymraeg dysgwyr ar draws y cwricwlwm.

Darperir cyrsiau ar dair lefel. Mae amcanion a manylion y cyrsiau fel a ganlyn:

| Cwrs | Cynulleidfa Darged | Hyd y Cwrs | Amcanion |
|---|---|---|---|
| Mynediad | Cynorthwywyr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg | 5 wythnos | Nod y cwrs yw darparu'r eirfa a'r patrymau iaith sydd eu hangen ar y cyfranogwyr er mwyn:<br>• cynorthwyo'r athrawon i gyflawni Maes Dysgu a Phrofiad Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.<br>• cynorthwyo'r athrawon i addysgu'r Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2.<br>• manteisio ar bob cyfle i gyflwyno'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd ysgol, yn yr ystafell ddosbarth, ar y buarth neu yn ystod gweithgareddau allgyrsiol. |
| Sylfaen | Athrawon o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg | 11 wythnos | Nod y cwrs yw:<br>• dysgu gramadeg a geirfa'r iaith i ymarferwyr.<br>• datblygu hyder ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod eang o gyd-destunau yn yr ysgol.<br>• darparu'r adnoddau iaith a'r hyder i ymarferwyr addysgu'r Gymraeg fel ail iaith i ddysgwyr hyd at o leiaf lefel 5 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.<br>• galluogi ymarferwyr i gyflwyno rhai gwersi neu rannau o wersi ar bynciau cwricwlwm eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• ysgogi cywirdeb fel bod athrawon yn esiampl iaith dda i'r dysgwyr<br>• rhannu arferion da o ran addysgu'r Gymraeg fel ail iaith.<br>• datblygu gwybodaeth athrawon am |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fethodoleg addysgu ail iaith.<br>• ehangu gwybodaeth am adnoddau addas a datblygiadau diweddar eraill wrth addysgu Cymraeg a datblygu arweinyddion pwnc blaengar.<br>• cynhyrchu siaradwyr Cymraeg hyderus. |
| Uwch | Athrawon a chynorthwywyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | 20 diwrnod (dros 1 tymor academaidd) | Mae'r cyrsiau Uwch wedi'u hanelu at ymarferwyr sydd eisoes yn siarad Cymraeg ac sy'n dymuno:<br>• ymestyn eu sgiliau iaith mewn cyd-destun proffesiynol, ar lafar ac ar bapur.<br>• atgyfnerthu a datblygu eu sgiliau iaith personol wrth addysgu, cynnal asesiadau a chyflawni gwahanol dasgau gweinyddol.<br>• datblygu eu gwybodaeth am fethodoleg addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.<br>• cael yr hyder i allu trafod terminoleg eu pwnc yn effeithiol ac yn gywir.<br>• bod yn hyderus wrth wirio gwaith disgyblion. |
| Cymraeg Mewn Blwyddyn | Athrawon o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg | 1 blwyddyn academaidd | Nod y cwrs yw:<br>• dysgu gramadeg a geirfa’r iaith i ymarferwyr.<br>• datblygu hyder yr ymarferwyr wrth gynllunio defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn unol â gofynion strategol y consortiwm / awdurdodau lleol.<br>• darparu'r adnoddau iaith a'r hyder i ymarferwyr ddarparu'r Gymraeg i'r disgyblion.<br>• paratoi ymarferwyr i gyflwyno gwersi neu rannau o wersi trawsgwricwlaidd trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• meithrin cywirdeb fel bod athrawon yn esiampl iaith dda i'r disgyblion<br>• rhannu arfer da wrth addysgu’r Gymraeg.<br>• trafod methodoleg addysgu’r Gymraeg fel ail iaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • datblygu, paratoi a rhannu adnoddau priodol a meithrin arweinwyr pwnc arloesol.<br>• cynhyrchu siaradwyr Cymraeg hyderus. |

Cychwynnodd y contractau cyfredol ym mis Medi 2013 a byddant yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2020. Dyfarnwyd y contractau drwy ymarfer caffael, a'r darparwyr llwyddiannus oedd Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae nifer y cyfranogwyr ar y gwahanol gyrsiau yn y tri lleoliad ers dechrau'r contractau cyfredol i'w gweld yn y tabl isod:

| | **Mynediad** | **Sylfaen** | **Uwch** | **Cymraeg Mewn Blwyddyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **2013/14** | | | | | |
| Prifysgol Bangor | 9 | 11 | 39 | | 59 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 36 | 30 | 13 | | 79 |
| Prifysgol Caerdydd | 34 | 29 | 21 | | 84 |
| **2014/15** | | | | | |
| Prifysgol Bangor | 0 | 7 | 8 | | 15 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 29 | 38 | 26 | | 93 |
| Prifysgol Caerdydd | 42 | 28 | 11 | | 81 |
| **2015/16** | | | | | |
| Prifysgol Bangor | 12 | 14 | 29 | | 55 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 42 | 38 | 23 | | 103 |
| Prifysgol Caerdydd | 39 | 25 | 23 | | 87 |
| **2016/17** | | | | | |
| Prifysgol Bangor | 12 | 14 | 22 | | 48 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 25 | 34 | 48 | | 107 |
| Prifysgol Caerdydd | 43 | 27 | 40 | | 110 |
| **2017/18** | | | | | |
| Prifysgol Bangor | 10 | 10 | 20 | 11 | 51 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 39 | 33 | 49 | 14 | 135 |
| Prifysgol Caerdydd | 42 | 28 | 22 | 11 | 103 |
| **2018/19** | | | | | |
| Prifysgol Bangor | 28 | 14 | 28 | 13 | 55 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 28 | 14 | 28 | 27 | 97* |
| Prifysgol Caerdydd | 28 | 0 | 14 | 26 | 68 |

*Bydd y Drindod Dewi Sant hefyd yn cynnal cynllun peilot ar gyfer cwrs lefel ganolradd yn nhymor yr haf, lle disgwylir i 14 o athrawon fod yn bresennol.

Comisiynwyd gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol, a disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Ionawr 2019. Mae gan y gwerthusiad ddau nod. Y cyntaf yw gweld sut, ac i ba raddau, y mae'r Cynllun Sabothol yn cyfrannu at newid y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu neu ei defnyddio fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion. Yr ail nod yw asesu cyfraniad y Cynllun Sabothol i ddarpariaeth datblygu proffesiynol ymarferwyr er mwyn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg neu ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn sail i ddatblygiad strategol y Cynllun Sabothol a hyfforddiant ymarferwyr yn y dyfodol.

**(ii) Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn ddigon uchelgeisiol i gyflawni'r strategaeth gyffredinol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro darpariaeth meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg yn erbyn y targedau interim a nodwyd gan y Gweinidog i ddarparu cyfanswm o 150 o leoliadau erbyn 2050.**

**Ymateb:** Derbyn.

Mae *Cymraeg 2050* yn nodi pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar, ac felly mae'n hanfodol sicrhau bod targedau'r strategaeth yn y maes hwn yn gosod sylfaen gadarn er mwyn cael adeiladu arni.

Mae targedau wedi eu gosod i sefydlu:

- 40 grŵp meithrin newydd cyfrwng Cymraeg erbyn 2021 (Cymraeg 2050 – Rhaglen Waith 2017-21).
- 150 grŵp meithrin newydd cyfrwng Cymraeg erbyn 2027 (Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr).

Er bod targedau *Cymraeg 2050* yn seiliedig ar gynnydd yn nifer y grwpiau meithrin, mae lleoliadau gofal plant yn gallu amrywio'n fawr o ran maint. Mae swyddogion felly wedi bod yn gweithio gyda Mudiad Meithrin i ddatblygu gwell dealltwriaeth o nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin. Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn nifer y

lleoliadau yn ogystal â nifer y plant sy'n mynychu lleoliadau er mwyn gwneud yn siŵr bod y sector gofal plant yn cynnig sylfaen gref i weithredu agweddau eraill ar y taflwybr a nodwyd yn *Cymraeg 2050*.

Bydd nifer o ffactorau yn effeithio ar yr union lwybr tuag at y miliwn. O ganlyniad, byddwn yn adolygu'r cynnydd yn erbyn pob un o dargedau'r strategaeth, ac yn ailymweld â'r taflwybr yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 7** (paragraff 34)

**Holodd y Pwyllgor a fyddai'r cyllid ychwanegol hwn yn ddigonol i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun gweithredu gan nad yw'r cynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi eto. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o fanylion am y blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu, a'r cyllid sy'n eu cefnogi, pan fydd y wybodaeth hon ar gael.**

**Ymateb:** Derbyn.

Ar 11 Rhagfyr, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r cynllun yn nodi gweithgareddau tymor byr, tymor canol a hirdymor gan flaenoriaethu'r canlynol:

- Sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth a gwybodaeth i wneud cynnydd ar hyd y continwwm Cymraeg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac ymlaen at y cyfnod ôl-19 lle bo hynny'n briodol.
- Creu gwell seilwaith i alluogi dysgwyr i gynyddu lefel y dysgu sy'n cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Meithrin ac ymestyn cyfleoedd datblygu staff presennol er mwyn galluogi darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 i gynyddu lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Ymwneud yn effeithiol â chyflogwyr i sicrhau bod gwaith cynllunio sgiliau effeithiol yn digwydd.

Yn 2018-19, neilltuwyd £150,000 i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ddechrau ar y gwaith mewn meysydd lle'r oedd yn bosibl cael dylanwad cynnar i wella'r sefyllfa a chreu seilwaith y gellir adeiladu arno at y dyfodol. Ar gyfer 2019-20, bydd y Coleg Cymraeg yn cyflwyno blaenoriaethau yn seiliedig ar y Cynllun Gweithredu i'w cytuno gyda Llywodraeth Cymru a bydd £150,000 ar gael at y diben hwn. Yn ogystal â'r gyllideb benodol hon, y mae cyllidebau eraill o fewn Is-Adran y Gymraeg yn cefnogi'r sector cyfrwng Cymraeg ôl-16.

**Argymhelliad 8** (paragraff 37)

**(i) Hoffai'r Pwyllgor gael ymrwymiad mwy cadarn gan Lywodraeth Cymru mai eu bwriad yw tanysgrifennu unrhyw gostau o weithgareddau tribiwnlys gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg na ellir talu amdanynt o gronfeydd wrth gefn.**

**Ymateb:** Derbyn.

Mae Gweinidog y Gymraeg yn cyfarfod Comisiynydd y Gymraeg yn chwarterol, ac mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd. Byddai unrhyw bwysau ariannol yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd hynny. Pe byddai pwysau ariannol yn codi o ganlyniad i'r angen i ariannu achosion cyfreithiol yn gysylltiedig â gweithredu'r Mesur, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a ddylid dyrannu cyllid ychwanegol i'r Comisiynydd.

**(ii) Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall y broses lle cytunwyd ar gynigion y gyllideb rhwng Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd y Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu'r cyfathrebu rhwng y Gweinidog, swyddogion a Chomisiynydd y Gymraeg. Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor ddeall am amseru a natur newidiadau'r Comisiynydd i'w chyllideb.**

**Ymateb:** Derbyn.

Mae gan gyllideb y Comisiynydd linell ei hun o fewn cyllideb y Gymraeg Llywodraeth Cymru sy'n dangos yn glir beth yw'r dyraniad blynyddol.

Mae Gweinidog y Gymraeg yn cyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg yn chwarterol, ac mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae materion cyllidol yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd hynny.

Mae Paragraff 17 o Atodlen 1 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i gyflwyno amcangyfrif o incwm a gwariant swyddfa'r Comisiynydd i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Rhaid i Weinidogion Cymru archwilio'r amcangyfrif a gyflwynir iddynt ac yna rhaid iddynt osod yr amcangyfrif gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda'r addasiadau (os oes rhai) sy'n briodol yn eu tyb hwy. Fel arfer, mae'r amcangyfrif yn cael ei gyflwyno i Weinidogion ym mis Hydref ac mae Gweinidogion yn ystyried yr amcangyfrif hwnnw cyn penderfynu beth yw'r dyraniad sy'n cael ei gynnig yn y gyllideb. Yn ogystal â'r ddogfen honno, mae Gweinidogion yn ystyried y trafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. Ar ôl i'r Cynulliad gymeradwyo'r gyllideb, mae'r Gweinidog yn anfon llythyr at y Comisiynydd yn cadarnhau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Gan y bydd Comisiynydd newydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2019, bydd y Gweinidog yn cyfarfod gyda'r darpar Gomisiynydd yn gynnar yn 2019 i drafod cyllideb 2019-20 a blaenoriaethau gwariant.

**Argymhelliad 9** (paragraff 40)

**(i) Hoffai'r Pwyllgor gael ymrwymiad llawer mwy cadarn gan Lywodraeth Cymru o ran pryd y bydd Bil y Gymraeg yn cael ei gyflwyno.**

**Ymateb:** Gwrthod.

Cafwyd cadarnhad gan y Prif Weinidog ar y pryd, yn ei ddatganiad ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar 17 Gorffennaf 2018, na fyddai Bil y Gymraeg yn cael ei gyflwyno ym mlwyddyn 3 y Cynulliad hwn (Medi 2018 – Gorffennaf 2019).

Mater i'r Prif Weinidog fydd ystyried amserlen y Bil hwn a biliau eraill yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol, a hynny ar sail blaenoriaethau'r Cabinet a phwysau eraill fel deddfwriaeth sy'n angenrheidiol o ganlyniad i Brexit. Caiff biliau blwyddyn 4 eu cyhoeddi yn y datganiad ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol nesaf cyn diwedd tymor yr haf, yn ôl y drefn arferol. O ystyried y ffactorau hyn oll, nid yw'n bosibl rhoi ymrwymiad mwy cadarn o ran amserlen y Bil.

**(ii) Mae hefyd yn bwysig nad yw sefydliadau masnachol, fel cwmnïau cyfleustod cyhoeddus, yn defnyddio diffyg safonau iaith fel esgus i leihau neu arafu eu darpariaeth Gymraeg.**

**Mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod y sector preifat yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried rhoi mwy o wybodaeth am ddarpariaethau tebygol y ddeddfwriaeth newydd er mwyn rhoi amser i sefydliadau'r sector preifat baratoi.**

**Ymateb**: Derbyn.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer y sector preifat yn yr ymgynghoriad ar ein Papur Gwyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen i'r sector preifat barhau i fuddsoddi mewn darpariaeth Gymraeg. I'r perwyl hwn, rydym yn gweithio ar brosiectau penodol:

<u>Rhwydwaith o swyddogion i hybu'r Gymraeg yn y sector preifat</u>

Prosiect i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes, a reolir gan Lywodraeth Cymru drwy swyddog cydlynu Mentrau Iaith Cymru a rhwydwaith o 11 o swyddogion busnes. Dechreuwyd y gwaith fis Tachwedd 2017. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- cynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i'r sector preifat fynd ati i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ar lafar, ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn weledol (arwyddion ac ati)
- gweithredu prosiectau yn cynnwys hyfforddiant, digwyddiadau, nosweithiau gwobrwyo
- cynnal neu gydweithio ar ymgyrchoedd perthnasol gyda Llywodraeth Cymru ac eraill
- sefydlu a mynychu fforymau strategol lleol i gynnwys partneriaid allweddol
- cydweithio â'r Canolfannau Cymraeg i ehangu effaith ieithyddol cymunedol
- monitro drwy gronfa ddata arbrofol 'cyn ac ar ôl' a grëwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru (a allai fod yn beilot i fesur effaith ymyraethau ieithyddol eraill pe bai'n llwyddiannus).

<u>'Pwynt Cyswllt' Ieithyddol</u>

Gwnaeth Alun Davies ddatganiad Gweinidogol fis Ebrill 2017 yn addo sefydlu 'pwynt cyswllt ieithyddol' i gynorthwyo'r sector gwirfoddol a phreifat i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y gwasanaeth yn cynnig cyfieithiadau am ddim hyd at 50 gair, ac yn

cynnwys gwasanaeth prawf ddarllen Comisiynydd y Gymraeg. Bydd hefyd yn ateb ymholiadau o bob math am y Gymraeg ac yn cyfeirio pobl at ffynonellau perthnasol o gymorth.

Mae hwn yn brosiect sylweddol ei faint ac fe'i rheolir gan Is-adran y Gymraeg, gyda chymorth Adran Busnes Cymru Llywodraeth Cymru. Bydd modd cysylltu drwy'r ffôn, e-bost, neges destun, 'gwe-sgwrs', a maes o law gobeithio drwy gyfrwng 'sgwrs fot' dwyieithog sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial.

Bydd y pwynt cyswllt yn ganolbwynt rhwng y Llywodraeth, y rhwydwaith o swyddogion busnes, Busnes Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a'r sector preifat. Bydd y pwynt cyswllt yn defnyddio systemau cyfrifiadurol 'canolfan alwadau' Busnes Cymru. Caiff ei lansio yng ngwanwyn 2019.

Ariennir y ddau brosiect yma o BEL y Gymraeg.

Cyhoeddodd y Gweinidog ar 5 Mehefin 2018 bod oedi i'r gwaith o baratoi rheoliadau safonau tra bod gwaith i ddatblygu Bil y Gymraeg yn parhau. Bydd swyddogion yn trafod yn helaeth gyda'r sector preifat pan fyddwn yn paratoi safonau ar eu cyfer, gan sicrhau bod cyfnod i baratoi cyn bydd yn rhaid cydymffurfio â'r safonau. Rhaid i unrhyw safonau fod yn rhesymol a chymesur i bob corff gydymffurfio â hwy.

**Argymhelliad 10** (paragraff 41)

**Bydd y Pwyllgor am edrych eto ar y buddsoddiad hwn i geisio sefydlu canlyniadau'r gwariant yn ystod y rownd cyllideb nesaf.**

**Ymateb:** Derbyn.

Rydym yn barod i dderbyn argymhelliad y Pwyllgor i edrych eto ar y buddsoddiad hwn i geisio sefydlu canlyniadau'r gwariant yn ystod y rownd cyllideb nesaf, gan y byddwn yn disgwyl cael gwybodaeth ar ôl cwblhau'r prosiect.

Gan adeiladu ar gytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru, bydd y buddsoddiad o £2.75m ar gyfer y prosiect £5.5m yn arwain at welliannau i'r cyfleusterau yng Nghlan-llyn ac yn Llangrannog. Yn benodol, addasu ac ehangu Canolfan Addysgol Glan-llyn Isaf er mwyn darparu cyfleusterau arbenigol a llety ar gyfer grwpiau sydd eisiau profiad mwy annibynnol, ar wahân i'r prif wersyll; adnewyddu ac uwchraddio Canolfan Hyfforddi Gweithgareddau Dŵr Glan-llyn i ddarparu cyfleusterau hyfforddi gweithgareddau dŵr; a thrawsnewid Calon y Gwersyll, Llangrannog i wella defnyddioldeb a hyblygrwydd y gwersyll a denu ymwelwyr newydd.

Bydd y gwelliannau hynny yn ehangu capasiti y ddau wersyll i ddiwallu'r galw cynyddol am brofiadau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ail iaith; gwella adeiladau sydd mewn cyflwr gwael; diwallu gofynion grwpiau ysgol ac addysgol sy'n ymweld; a sicrhau bod lleoliad addysgol y gwersyll yn gyson â'r continwwm dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cymru newydd.

**Eluned Morgan AC**

**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Dafydd Elis-Thomas AC**

**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**